Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Terrig**
**Ffordd y Llan**
**Treuddyn**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 4LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol ddynodedig Gymraeg, a gynhelir gan Awdurdod Addysg Sir y Fflint, yw Ysgol Terrig. Fe'i lleolir ym mhentref Treuddyn, sydd oddeutu pum milltir o'r Wyddgrug. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref yn bennaf, ond daw nifer o ddisgyblion o'r ardal gyfagos, megis o bentrefi Eryrys, Pontybodcyn a'r Ffrith.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 73 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan bedair o athrawon amser llawn.

Ystyrir y disgyblion a ddaw i'r ysgol fel rhai o gefndiroedd sydd heb fod yn ddifreintiedig nac ychwaith yn ffyniannus. Tua 15% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae dau blentyn o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae'r ganran o ddisgyblion (4%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir y Fflint a Chymru. Mae 13 (19%) o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na chanran y sir a Chymru.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn y swydd ers mis Ionawr 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Terrig yn 2011-2012 yn £3,855. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £10,075 a'r lleiafswm yw £2,616. Mae Ysgol Terrig yn seithfed allan o'r 76 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae elfennau o berfformiad Ysgol Terrig yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi ac yn eu llyfrau cyfredol;
- canlyniadau asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson uwch nag ysgolion tebyg;
- yr addysgu yn gadarn dda;
- y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

Er hynny, digonol yw perfformiad cyfredol oherwydd:

- bod tueddiadau yng nghanlyniadau asesiadau athrawon dros gyfnod yng nghyfnod allweddol 2 yn is na chanlyniadau ysgolion tebyg;
- lleiafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau llafar a darllen yn Gymraeg;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu estynedig lleiafrif o ddisgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2; a
- nid yw gweithgareddau dysgu cyfnod allweddol 2 yn ymestyn yn llawn yr holl ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion a'r llywodraethwyr;
- y pennaeth mewn byr amser wedi llwyddo i adnabod yr ysgol yn drwyadl;
- tystiolaeth glir o welliant mewn meysydd pwysig mewn amser byr;
- ymroddiad yr holl staff i ddatblygu'r ysgol yn gymuned addysgol drefnus sy'n canolbwyntio ar godi safonau; ac
- y corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg.

Fodd bynnag:

- hyd yma, nid oes digon o amser wedi bod i'r gwelliannu effeithio'n llawn ar safonau yng nghyfnod allweddol 2;
- nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gwneud digon i ddadansoddi ac arfarnu ansawdd ac effaith systemau a strategaethau'r ysgol;
- nid yw'r meini prawf llwyddiant yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon penodol na mesuradwy; ac
- megis dechrau datblygu y mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol i'r ysgol.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;

A2 godi safonau llafar a darllen yn y Gymraeg, ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;

A3 sicrhau gweithgareddau fydd yn ymestyn yn llawn disgyblion o bob gallu;

A4 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;

A5 sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi sylw dyladwy i effeithiolrwydd ac effaith systemau a strategaethau'r ysgol;

A6 sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn benodol a mesuradwy, a

A7 datblygu gallu llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn gyson uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae ymhlith y 25% uchaf mewn pedair o'r blynyddoedd hynny. Dros yr un cyfnod, mae'r niferoedd sy'n cyflawni ar lefel uwch yn y Gymraeg a mathemateg yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru. Mae'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefelau uwch mewn gwyddoniaeth yn amrywio.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi gostwng. Mae'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion yn y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2011, heblaw mewn mathemateg, roedd perfformiad yr ysgol gyda'r isaf yn y teulu ym mhob pwnc. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, bu'r ysgol ymhlith y 50% isaf mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn amrywio ond yn gyffredinol mae wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Ar draws yr ysgol, gall rhan fwyaf y disgyblion alw i gof dysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol mewn gwersi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, fe wna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd cyson ac amlwg ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn datblygu'n dda. Fe welir y cynnydd da hwn hefyd yn amlwg yn llyfrau cyfredol rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2. Yn eu gwersi, maent yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Er hyn, nid yw'r cynnydd yn gyson dros gyfnod mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol.

Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a'u gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg wrth drin a thrafod mewn amrywiol bynciau. Er hynny, lleiafrif sy'n defnyddio geirfa gyfoethog a chystrawennau'n gywir. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn darllen testunau syml gyda mwynhad, yn gynyddol hyderus a chywir. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod briodol o destunau gyda chywirdeb cynyddol ac yn defnyddio eu medrau'n effeithiol ar gyfer darllen at wahanol ddibenion. Er hynny, ychydig o'r disgyblion hŷn sydd â'r medrau i ddarllen dros destun yn gyflym i gael argraff gyffredinol. Lleiafrif sy'n darllen ar goedd gyda rhuglder ac yn lliwio'u mynegiant yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn darllen Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn Saesneg yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i gyflwyno'r wybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gywir yn y ddwy iaith mewn ystod o ffurfiau. Mae eu medrau atalnodi a sillafu'n datblygu'n briodol. Er hynny nid yw eu gallu i ysgrifennu'n greadigol ac estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn eu llyfrau cyfredol yn dda.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn falch o'u hysgol, yn teimlo'n ddiogel a hapus yno ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain. Lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio.

Yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf mae lefelau presenoldeb wedi bod ychydig yn is na rhai ysgolion tebyg. Mae ymdrechion diweddar yr ysgol i godi canrannau presenoldeb a sicrhau prydlondeb wedi llwyddo. Bellach mae cyfraddau presenoldeb dros 94% ac mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cynghorau Eco ac Ysgolion Iach a'r Criw Clên yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fynegi barn a chyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau diddorol y tu fewn a thu allan sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol. Mae'r

gweithgareddau yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.  Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch.

Mae’r athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio eu gwersi yn effeithiol gan adeiladu’n briodol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod.  Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu’n gadarn ac yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol a bywiog.  Cynigir ystod o brofiadau dysgu diddorol hefyd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2.  Nid yw’r cynlluniau tymor hir yn cynnig digon o arweiniad er mwyn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu eu medrau yn effeithiol.

Mae’r athrawon yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygiad medrau cyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae’r cynllunio’n ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn effeithiol hefyd.  Nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar a darllen yn y Gymraeg nac ychwaith y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yn llwyr effeithiol.  Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Rhoddir sylw da i’r Dimensiwn Cymreig drwy’r ysgol ac mae’r ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn deall a dathlu diwylliant Cymru.

Ceir darpariaeth effeithiol i alluogi’r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu:  Da**

Mae’r addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol.  Mae’r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn modelu iaith yn effeithiol.  Mae perthynas waith dda rhwng staff a disgyblion ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol.

Mae amcanion gwersi wedi eu nodi’n glir.  Mae’r athrawon yn holi yn fedrus ac yn ymyrryd ar adegau priodol gan roi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.  Defnyddir y cymorthyddion dosbarth yn llwyddiannus er mwyn cefnogi disgyblion.  Yn yr ychydig wersi lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, nid yw’r tasgau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion o wahanol allu.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael dylanwad positif ar safonau.  Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio yn rheolaidd a’r athrawon yn rhoi adborth defnyddiol yn ysgrifenedig ac yn llafar.  Ar ei orau, mae'r adborth yn galluogi disgyblion i wybod yr hyn y maent wedi’i gyflawni a’r hyn i’w wneud nesaf i wella.  Cymharol ddiweddar yw’r arfer o osod targedau ar gyfer gwella i unigolion.

Mae’r broses o dracio cynnydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.  Mae’r llyfrau llwyddiant a gyflwynwyd yn ddiweddar yn arf effeithiol i gadw golwg ar gynnydd disgyblion y disgyblion hŷn ac yn sicrhau adnabyddiaeth dda o gyraeddiadau disgyblion.  Mae’r athrawon yn dadansoddi gwybodaeth am gynnydd

disgyblion yn drylwyr ac yn defnyddio canlyniadau profion safonol er mwyn adnabod yr angen am ymyrraeth gynnar a chynllunio'n briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau o ansawdd da ar gyfer rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau. Enghraifft dda o hyn yw'r Criw Clên sydd yn cymryd cyfrifoldeb am ymddygiad a hapusrwydd disgyblion amser chwarae. Mae'r disgyblion hyn yn gwerthfawrogi'r cyfrifoldeb ac yn ei gymryd o ddifrif.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Trwy ymweliadau a phrosiectau, mae'r athrawon yn sicrhau ystod o brofiadau creadigol a diwylliannol gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n arwyddocaol at awyrgylch gofalgar yr ysgol.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol a'r heddlu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar a darperir cymorth ac arweiniad buddiol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r athrawon yn sicrhau fod rhieni a disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio rhaglenni unigol ac adolygir cynnydd yn gyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'r ffordd mae'r Criw Clên yn gwarchod y disgyblion iau ar y buarth yn cyfrannu'n dda at hyn. Mae yma ethos cyfeillgar a phwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal i'r cwricwlwm i bob un disgybl.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu buddiol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae'r arddangosfeydd yn cyfoethogi ac yn ysgogi dysgu yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o dir ac adeilad yr ysgol a chaiff yr holl safle ei gadw'n raenus.

Mae yma amrywiaeth da o adnoddau o ansawdd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mewn byr amser, ers ei hapwyntiad, mae’r pennaeth wedi llwyddo i rannu ei gwerthoedd a’i disgwyliadau uchel. Mae wedi sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae’r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ei strwythurau, a’i pholisïau yn glir. Mae’r pennaeth yn cydweithio’n effeithiol gyda staff yr ysgol i greu ethos cadarnhaol sy’n canolbwyntio ar godi safonau. Mae gan bob aelod o’r staff swydd-ddisgrifiad penodol sydd yn sicrhau eu bod yn deall eu rôl a’u cyfrifoldebau cwricwlaidd.

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd a newid yn staffio’r ysgol, llwyddwyd mewn byr amser i roi strategaethau ar waith sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a safonau’r disgyblion. Er nad yw’r holl strategaethau wedi cael digon o amser i effeithio’n llawn ar safonau disgyblion, gwnaed cynnydd cyflym mewn llawer o feysydd pwysig a rheolwyd y newidiadau yn dda.

Mae’r corff llywodraethol wedi helpu i gynnig cyfeiriad strategol i’r ysgol yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd. Mae llawer o bolisïau’r ysgol wedi’u hadolygu a’u haddasu’n ddiweddar gyda phwyntiau gweithredu perthnasol yn rhan ohonynt. Mae’r llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data yn fwy ystyrlon. Mae hyn wedi eu galluogi i adnabod yr angen i godi safonau, ond nid ydynt yn herio’r ysgol yn ddigonol fel cyfeillion beirniadol.

Erbyn hyn, sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Rhoddir mwy o bwyslais bellach ar wella medrau llythrennedd yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau datblygu’n briodol ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn cynnig darlun gonest o’r ysgol. Mae’n dod i farn glir ar safonau cyrhaeddiad disgyblion. Er hynny, nid yw’n ddigon arfarnol na dadansoddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau’r ysgol.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu prosesau monitro effeithiol, sy’n cynnwys arsylwadau gwersi ac archwilio llyfrau disgyblion. Mewn byr amser mae hi wedi llwyddo i adnabod yr ysgol yn drwyadl. Drwy roi sylw priodol i brosesau rheoli perfformiad, mae’r pennaeth a’r staff addysgu wedi cytuno ar amcanion perthnasol i hybu eu datblygiad personol a phroffesiynol.

Yn ddiweddar, mae’r pennaeth wedi mynd ati i ganfod barn disgyblion drwy’r cyngor ysgol, ac wedi gwahodd rhieni i fynegi barn ar ddiwrnod agored. Ni chafodd rhieni na disgyblion gyfle i gyfrannu at yr hunanarfarniad. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn amlinellu blaenoriaethau priodol, sy’n deillio o’r adroddiad hunanarfarnu ac yn ffocysu ar godi safonau. Er hyn, nid yw’r targedau’n ddigon penodol na meintiol, ac o ganlyniad, nid yw’n hawdd i’r llywodraethwyr adolygu’r cynnydd.

Mae'r athrawon yn dechrau ehangu eu hymrwymiad i gymunedau dysgu gydag ysgolion y clwstwr. Nid yw'r cysylltiadau wedi cael cyfle eto i effeithio'n llawn ar ddulliau addysgu ac asesu athrawon.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau gyda rhieni, y gymuned, y cylch meithrin a'r cylch Ti a Fi a gynhelir yn yr ysgol. Caiff y cysylltiadau hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad a lles disgyblion.

Mae'r perthynas agos gyda'r cylchoedd a gynhelir yn yr ysgol yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu'n fuan. Cyfranna'r trefniadau trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn helaeth at baratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio'n dda yn gymharol ddiweddar ar gymedroli gwaith disgyblion gydag ysgolion eraill y clwstwr. Ceir cyswllt buddiol gyda'r ysgol Saesneg ar yr un campws wrth rannu adnoddau. Enghraifft da o hyn yw'r ymweliad diweddar i Bentre Peryglon a drefnwyd ar y cyd.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac maent hwythau yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol iawn gyda'r gwasanaethau cymunedol, ac mae'r disgyblion yn cynnal cyngherddau yn y gymuned yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynorthwyol cymwys a chânt eu defnyddio'n bwrpasol. Cafodd adnoddau dysgu'r ysgol eu hadolygu a'u hadnewyddu'n drwyadl yn ddiweddar. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad llwyddiannus mewn llyfrau darllen newydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi'i threfnu'n dda. Mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol.

Rheolir gwariant cyllid yr ysgol yn ofalus gan y pennaeth gyda chymorth swyddog yr awdurdod lleol, ac o ganlyniad llwyddodd yr ysgol i ddiddymu'r gorwariant blaenorol.

O ystyried deilliannau disgyblion, digonol yw'r gwerth am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn gyson uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn hefyd yn wir hefyd am lafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 25% uchaf mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 3 yn y tri phwnc yn uwch na ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru. Mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel uwch yn y Gymraeg a mathemateg yn uwch na ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru. Mae'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefelau uwch mewn gwyddoniaeth yn amrywio.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bum mlynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi gostwng ac yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion yn y tair blynedd ddiwethaf.

Yn 2011, heblaw ym mathemateg, roedd perfformiad yr ysgol gyda'r isaf yn y teulu ym mhob pwnc. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf yng Nghymru. Bu perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% isaf mewn tair o'r pedair blynedd flaenorol.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg ond yn is yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn amrywio ond yn gyffredinol mae wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron dysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 26 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae’r ymatebion yn amrywiol, ac yn gyffredinol yn is na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae llawer yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae pob un yn credu fod yr athrawon a’r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd o’r farn fod yr athrawon yn eu dysgu sut i aros yn iach er nad yw lleiafrif yn teimlo fod llawer o gyfleodd i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un yn datgan eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol a’u bod yn gwybod ble i droi am gefnogaeth pan fyddant yn gofidio neu yn gweld y gwaith yn anodd. Er hynny, mae mwyafrif y disgyblion a ymatebodd i’r holiadur yn datgan nad yw’r ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlïo. Lleiafrif o’r disgyblion sy’n credu fod plant eraill yn ymddwyn yn dda.

**Holiaduron rhieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 11 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae’r rhieni i gyd yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod yr addysgu yn dda. Nododd y cyfan o’r rhieni eu bod yn fodlon iawn â’r ysgol yn gyffredinol a’u bod yn cytuno’n ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Maent bron i gyd yn cytuno fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Cytuna’r rhan fwyaf fod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau a bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alwyn Ward | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Connah | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.